# Rheoliadau ar gyfer Cadarnhau Cymwysterau a Chyflwyno Tystysgrifau

Rheoliad 19: 2021 Fersiwn 01
Mewn grym: 1 Tachwedd 2021

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn Disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 1 Tachwedd 2021 | 2018 Fersiwn 01 | Mân addasiadau yn unol ag ailstrwythuro'r Brifysgol. |
| 1 Mai 2018 | Fersiwn 2015 | Diweddariad cyffredinol. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad y Cymeradwywyd | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gweinyddiaeth Myfyrwyr. | Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig. | 2 Tachwedd 2021. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Weithdrefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

# Rheoliadau ar gyfer Cadarnhau Cymwysterau a Chyflwyno Tystysgrifau

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i bob myfyriwr sy'n derbyn cymwysterau Prifysgol Bangor.

## Rhagarweiniad

1. Caiff Graddau, Diplomâu, Tystysgrifau a chymwysterau eraill a ddyfernir gan Brifysgol Bangor eu cadarnhau yn ystod Seremoni Raddio yn y Brifysgol. Gall y Brifysgol bennu union fformat y seremoni a nifer y seremonïau. Disgwylir i staff academaidd a staff eraill y Brifysgol fod yn bresennol yn y Seremonïau Graddio. Gall y Brifysgol gymeradwyo trefniadau eraill ar gyfer rhaglenni a ddarperir gan eraill neu mewn partneriaeth ag eraill.
2. Cyflwynir tystysgrifau i fyfyrwyr sy'n llwyddo yn rhaglenni'r Brifysgol sy'n arwain at gymwysterau. Cynhyrchir y tystysgrifau gan Adran Gweinyddu Myfyrwyr y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Myfyrwyr a Gweinyddiaeth. Nid oes gan unrhyw Golegau nac Ysgolion, nac unrhyw sefydliad neu unigolyn arall, yr awdurdod i gynhyrchu tystysgrifau ar gyfer rhaglenni'r Brifysgol sy'n arwain at gymwysterau.
3. Dim ond yr Adran Gweinyddu Myfyrwyr a all gynhyrchu tystysgrifau pan fydd wedi derbyn tystiolaeth gan Fyrddau Arholi bod myfyrwyr wedi cwblhau eu rhaglen astudio'n llwyddiannus.
4. Gall Colegau neu Ysgolion gynhyrchu dogfennau i gadarnhau bod myfyrwyr wedi cwblhau cyrsiau nad ydynt yn arwain at gymwysterau fel y diffinnir yn y Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Ddi-gymhwyster.
5. Rhaid i Fyrddau Arholi benderfynu a yw myfyrwyr wedi cymhwyso am radd. Ar ôl cymhwyso, fe'u gelwir yn 'ddarpar raddedigion'. Daw darpar raddedigion yn 'raddedigion' ar ôl iddynt dderbyn tystysgrif eu cymhwyster.

## Cadarnhau Cymwysterau

6. Gall myfyrwyr ddewis a ydynt am fod yn bresennol yn y seremoni raddio. Os na allant fod yno, neu os nad ydynt yn dymuno bod, byddant yn derbyn tystysgrif eu cymhwyster drwy'r post.
7. Awdurdodir Is-ganghellor y Brifysgol gan y rheoliadau hyn i gadarnhau'r cymwysterau mewn seremonïau graddio. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr Is-ganghellor ddirprwyo'r ddyletswydd hon i un o uwch swyddogion y Brifysgol.
8. Rhaid i fyfyrwyr sy'n bresennol mewn Seremoni Raddio wisgo'r wisg academaidd briodol (gan gynnwys gwn, cwcwll a chap) fel y nodir gan y Brifysgol.
9. Gall y Brifysgol ddyfarnu graddau er anrhydedd, cymrodoriaethau neu anrhydeddau eraill i unigolion a ystyrir gan y Brifysgol yn deilwng o'r fath gymwysterau.
10. Mae gan y Brifysgol, yn gweithredu drwy'r Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr (neu enwebai) yr hawl i wahardd myfyriwr rhag dod i'r Seremoni Raddio.
11. Pan fo'r cytundeb rhwng y Brifysgol a Sefydliad cydweithredol yn caniatáu, gall y Sefydliad drefnu seremoni i gadarnhau'r cymwysterau. Rhaid i'r trefniadau gael eu

cymeradwyo gan Bennaeth Gweinyddu Myfyrwyr y Brifysgol. Mae gan fyfyrwyr sy'n bresennol yn y seremoni'r hawl i wisgo'r wisg academaidd briodol fel y nodir gan y Brifysgol.

## Cyflwyno Tystysgrifau

12. Caiff tystysgrif ei chyflwyno o fewn 2 fis o'r dyddiad pan fydd yr Adran Gweinyddu Myfyrwyr yn derbyn cadarnhad o ganlyniad y myfyriwr. Caiff tystysgrifau eu cyflwyno drwy'r post, ond os bydd y myfyriwr yn dewis dod i seremoni raddio o fewn y cyfnod pan fyddai'r dystysgrif yn cael ei chyflwyno fel rheol, caiff y dystysgrif ei chyflwyno yn y Seremoni.

13. Os, oherwydd amgylchiadau eithriadol, nad yw'n bosib cyflwyno tystysgrif yn unol â'r drefn ym mharagraff 12, cyflwynir tystysgrifau cyn gynted ag y bydd yn ymarferol bosib.

## Cynnwys Tystysgrifau

14. Bydd tystysgrifau'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:
    - Enw'r Brifysgol
    - Arfbais y Brifysgol
    - Enw llawn y cymhwyster
    - Teitl y rhaglen
    - Enw llawn y myfyriwr
    - Y dyddiad y derbyniwyd y myfyriwr i'r radd
    - Enw a llofnod yr Is-ganghellor
    - Rhif y dystysgrif
    - Yn achos tystysgrif newydd sydd yn lle un a gollwyd/difrodwyd, stamp i ddangos hynny.

    Bydd y tystysgrifau'n cynnwys nodweddion diogelwch y gall yr Adran Gweinyddu Myfyrwyr eu defnyddio i gadarnhau bod tystysgrif yn ddilys, er enghraifft, papur â dyfrnod a micro-destun.

15. Diffinnir enwau cymwysterau a theitlau rhaglenni pan ddilysir cwrs. Gellir cymeradwyo newidiadau i deitlau rhaglenni ar ôl eu dilysu. Oni bai fod hynny drwy gytundeb rhwng y myfyriwr a'r Brifysgol, ni ellir addasu teitl rhaglen unwaith y bydd myfyriwr wedi cofrestru ar gyfer blwyddyn gyntaf cwrs penodol. Dim ond teitl cymeradwy'r rhaglen fel y'i cofnodwyd ar gyfer y myfyriwr yn system cofnodion myfyrwyr y Brifysgol a argreffir ar y dystysgrif.

16. Yr enw fydd yn ymddangos ar y dystysgrif fydd enw cyfreithiol llawn y myfyriwr fel y'i cofnodir yn system cofnodion myfyrwyr y Brifysgol. Fel rheol gwrthodir ceisiadau i newid enw yn dilyn priodas neu weithred newid enw. Mewn amgylchiadau eithriadol gellir cymeradwyo cais a dderbynnir o fewn 28 diwrnod o ddyfarnu tystysgrif os bydd y myfyriwr yn cynnig eglurhad rhesymol pam nad oedd wedi newid ei (h)enw cyn i'r dystysgrif gael ei chyflwyno.

17. Fel rheol gwrthodir ceisiadau i newid teitl y cymhwyster neu'r rhaglen, enw'r myfyriwr, neu unrhyw fanylion eraill a argraffwyd ar y dystysgrif, neu unrhyw nodweddion ar y dystysgrif. Nid ystyrir ceisiadau felly ond mewn achosion lle ceir tystiolaeth bod y manylion a argraffwyd ar y dystysgrif yn anghywir.

18. Mae enw a lleoliad unrhyw ddarparwr addysg uwch arall oedd yn gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen a phrif iaith yr astudiaeth a'r asesiad wedi ei nodi ar y trawsgrifiad.

## Danfon

19. Fel rheol bydd tystysgrifau a anfonir trwy’r post i gyfeiriad yn y DU yn mynd gyda phost ail ddosbarth y Post Brenhinol. Fel rheol bydd pob tystysgrif a anfonir i gyfeiriad y tu allan i’r DU yn mynd gyda phost cofnodedig y Post Brenhinol neu ddull cyfatebol (fel y gellir sicrhau ei bod wedi ei derbyn/ei dychwelyd).
20. Nid anfonir tystysgrifau trwy’r post ond i gyfeiriad cartref parhaol cyfredol myfyriwr fel y cofnodir hwnnw yn system cofnodion myfyrwyr y Brifysgol. Os nad yw’r cyfryw gyfeiriad yn bod neu os nad yw’n gyfredol, cedwir y dystysgrif yn y Swyddfa Gweinyddu Myfyrwyr hyd nes y bydd y myfyriwr yn cysylltu â’r Brifysgol. Gall y Brifysgol wneud trefniadau eraill i ddanfon tystysgrifau i fyfyrwyr ar raglenni cydweithredol.
21. Os na fydd tystysgrif yn cyrraedd myfyriwr, ac os gellir dangos bod y Brifysgol ar fai, anfonir copi o’r dystysgrif am ddim. Os bydd myfyriwr wedi methu â rhoi’r cyfeiriad cywir i’r Brifysgol, codir tâl gweinyddol am gynhyrchu tystysgrif arall yn ei lle.

## Tystysgrifau Newydd

22. Os bydd myfyriwr yn colli tystysgrif, gellir rhoi tystysgrif newydd iddo/iddi, cyn belled ag y bydd y myfyriwr yn rhoi datganiad yn cadarnhau bod y dystysgrif wreiddiol ar goll/wedi ei difrodi. Codir tâl am dystysgrifau newydd.
23. Gwelir y gair ‘Duplicate’ ar dystysgrifau newydd. Gall y dystysgrif newydd fod yn wahanol o ran fformat ac arddull i’r un a gyflwynwyd yn wreiddiol ond bydd yn cynnwys yr un wybodaeth.
24. Fel arfer cymerir hyd at chwe wythnos ar ôl derbyn y cais i gynhyrchu tystysgrif newydd.

## Gwirio

25. Bydd y Brifysgol yn ymateb i unrhyw geisiadau rhesymol i wirio bod tystysgrif yn un ddilys. Ni fydd y Brifysgol yn ymateb i geisiadau oni bai fod tystiolaeth eglur bod y person sy’n gwneud cais am wiriad wedi cael copi dilys o’r dystysgrif. Penderfynir hyn fel rheol trwy gyfeirio at rif y dystysgrif, ac unrhyw rannau neu nodweddion eraill o’r dystysgrif y bernir eu bod yn berthnasol. Os bydd myfyriwr wedi rhoi copi o’r dystysgrif i drydydd parti, cymerir hyn fel arwydd bod caniatâd i’r Brifysgol wirio’r dystysgrif.

## Cwynion

26. Os bydd myfyriwr yn anfodlon ar unrhyw agwedd yn ymwneud â chynhyrchu neu gyflwyno ei dystysgrif, yna, yn y lle cyntaf, dylai’r myfyriwr gysylltu â’r Swyddfa Cymwysterau i drafod ei bryderon. Os ydyw’r mater yn dal heb ei ddatrys er boddhad i’r myfyriwr, yna gellir cyflwyno cwyn gan ddefnyddio’r Drefn Cwynion Myfyrwyr.